# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*
# *Harbour Consultative Committee*

***04 Mawrth 2008***

***Adroddiad yr Uned Morwrol***

**1 – *<u>Ffioedd a Thaliadau</u>***

***1.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, 2008/09, wedi eu hanfon i'r Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portfolio y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes er cymeradwyaeth.

*1.2* Yn atodol, gwelir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â harbwr Aberdyfi a harbwr Abermaw, ac fe fydd yr Aelodau yn nodi mai'r argymhelliad yw fod y taliadau i'r bobl hynny sy'n preswylio yn barhaol yng Ngwynedd yn cynyddu o 4%, gyda'r cynnydd i'r bobl hynny sy'n byw y tu allan i Wynedd yn 5%.

*1.3* Y rhagolygon chwyddiant i borthladdoedd Gwynedd yn 2008/09 yw 3.97%. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd gofynnol o £11,270 yn ein targed incwm am 2008/09. Bydd yr aelodau yn ymwybodol nad yw'r targed incwm i Abermaw yn cyrraedd ei darged ac felly bydd angen cymryd mesurau pellach i sicrhau fod y gwariant cyffredinol, a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau yn 2008.

*1.4* Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lawnsio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu ar gyfartaledd o 7%. Er bod rhai ffioedd yn aros heb newid, mae cynnydd bychan yn y taliadau cofrestru drwy'r post ac mae'r ffi caniatâd i lawnsio blynyddol hefyd wedi cynyddu. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau a argymhellir yn atodol.

*1.5* Y cynnydd cyffredinol yn nharged incwm yr Uned Forwrol yn 2008/09 yw £62,040, gan gynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,070,880.

**2 – *<u>Trwydded Fferi</u>***

***2.1*** Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf nid yw'r Uned Forwrol wedi derbyn cais am 'Drwyddedau Perchnogion' i gychod sy'n gweithredu yn Nyfroedd Categoredig harbwr Aberdyfi (dyfroedd Categori C.) Drwy rinwedd Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd, gall y drwydded ddechrau saith niwrnod cyn y Pasg i ddiwedd Hydref. Dylid nodi y pwyntiau byrddio a gadael ar y Drwydded a bydd y cwch ond a'r hawl i gludo uchafswm o ddeuddeg o bobl (wedi eu diffinio fel pobl dros flwydd oed).

*2.2* Yn 2008, mae'r Pasg yn gymharol gynnar ac yn dechnegol gellir cyflwyno'r drwydded i weithredu fferi yn y Dyfroedd Gategoreiddwyd gan ddechrau ar y 14eg o Fawrth 2008, ar yr amod fod y cwch wedi cael ei archwilio ar y lan ac ar y dŵr gan Syrfewr Cychod Hwylio ardystiedig. I ddiffinio Syrfewr Cychod bydd yr unigolyn yma yn aelod o'r YDSA.

*2.3* Gofynnir i'r aelodau roi sylwadau ar y gofynion a restrir yn 3.4 i 3.7. Nid yw'r rhestr yn ollgynhwysol. Mae ffurflenni archwilio ychwanegol i gychod a'r rhestr offer i berchnogion yn atodol. Bydd hyn yn sicrhau fod gofynion tebyg yn gymwys i'r holl Ddyfroedd wedi eu Categoreiddio yng Ngwynedd.

*2.4* Mae hi'n hanfodol fod yr offer a argymhellir gan y Cyngor, sy'n lleiafswm, ar gael ar fwrdd y cwch bob amser. Cafodd y rhestr a'r argymhellion eu llunio o'r Côd Cychod Bach i Deithwyr Mewndirol.

*2.5* Er mwyn bod yn feistr ar gwch sydd wedi ei hawdurdodi yn briodol i gludo teithwyr mewn Dyfroedd wedi eu Categoreiddio, mae angen i feistr cwch o'r fath gael ei drwyddedu yn briodol gan y Cyngor. Mae trwyddedau o'r fath yn cael eu cyflwyno yn rhinwedd Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd ac yn cael eu cyflwyno ar yr amod fod gan yr ymgeisydd gymwysterau addas a/neu brofiad.

*2.6* Cyn derbyn Trwydded mae angen i'r ymgeisydd wneud cais i'r Awdurdod am Drwydded a bydd prawf medrusrwydd bach yn cael ei gynnal ar y dŵr gan yr Harbwr Feistr neu swyddog arall cymwys profiadol o'r Uned Forwrol. Dim ond ar ôl cwblhau'r prawf ar y dŵr yn llwyddiannus y cyflwynir y Drwydded.

*2.7* Bydd Trwydded Perchennog a Thrwydded y Cychwr yn nodi fod y cwch, os yw'n cael ei ddefnyddio i gludo teithwyr am dâl, ond yn cael ei ddefnyddio yn ystod oriau golau dydd ac mewn tywydd da. I weithredu yn ystod oriau'r nos, rhaid gwneud cais ar wahân ynghyd ag asesiad o'r Cychwr ar y y dŵr.

## *3 - <u>Cyllidebau</u>*

3.1 Mae sefyllfa ariannol porthladdoedd Abermaw ac Aberdyfi ar 31ain Ionawr 2008 yn atodol. Bydd yr aelodau yn sylwi fod y targed incwm ar gyfer harbwr Aberdyfi am 2007/08 yn £38,380, a bod cyfanswm yr incwm a grewyd hyd ddiwedd Ionawr 2008 wedi cyrraedd £33,967, diffyg o £4,413. Ni ragwelir y gellir creu swm sylweddol o incwm yn ystod Chwefror a Mawrth ac felly rydym yn rhagdybio y byddwn ychydig yn brin o'r targed.

Mewn cymhariaeth, mae'r targed incwm yn Abermaw am 2007/08 yn £48,940 ac mae'r incwm hyd yma yn £35,167, diffyg o £13,773.

3.2 Hyd yma, mae'r gwariant wedi bod yn fwy na'r gyllideb ar sawl pennawd ac mae hyn yn peri pryder gan y rhagdybir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod Chwefror a Mawrth. Yn atodol hefyd ceir yr adroddiad ariannol hyd ddiwedd Rhagfyr 2007. Sefydlwyd y pennawd cyllideb NT 55 12 01 (£12,740) i welliannau mân eraill fel y cyfleuster disel a gwblhawyd yn ddiweddar. Cafodd y gyllideb ei chynnwys o gyllideb gyffredinol yn yr Uned Forwrol i'w defnyddio mewn porthladdoedd eraill ac ar draethau.

3.3 Fe fydd 2008/09 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn arbennig i harbwr Aberdyfi ac Abermaw. Pwysleisir y bydd angen i ni oresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm, yn enwedig o gofio am yr hinsawdd ariannol presennol sy'n wynebu'r Awdurdod.

***4 Mordwyo***

4.1 Mae'r mwyafrif o Gymhorthion Mordwyo sy'n arwain i harbwr Aberdyfi wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf misoedd y gaeaf. Hyd yma, mae'r gost o roi gwasanaeth i'r Cymhorthion Mordwyo ac angorfeydd yr harbwr yn £4,500, ond y gyllideb sydd ar gael yw dim. Bydd angen dod o hyd i arian o'r gyllideb bresennol i gwrdd â'r gost o gynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo i'r dyfodol. Nid yw'r gost y soniwyd amdani uchod yn cynnwys cost y deunyddiau fel y cadwynni a'r angorau.

4.2 Symudodd y marciau mordwyo Port a Starboard o'u lle dros gyfnod y gaeaf. Er mai marc tymhorol yw'r bwi Port (Mai i Hydref) mae angen y bwi Starboard i fod yn barhaol yn ei le. Cafodd y bwi starboard ei niweidio tua diwedd tymor yr Hydref ac fe aed ag ef i Borthmadog i'w assesu ac o bosib i'w drwsio.

4.3 Bydd cost newid y bwi Starboard tua £3,700 heb gynnwys cost y gadwyn, angor a lleoli'r bwi yn ei le.

**5 - *Staff***

5.1 O gofio fod nifer o swyddogion yn yr Uned Forwrol ar secondiad mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, bydd angen penodi swyddog tymhorol dros dro i swydd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi yn ystod y tymor nesaf. Er mwyn sicrhau fod gwasanaeth addas yn Aberdyfi, rhagwelir y bydd swyddog tymhorol yn ei swydd cyn dechrau gwyliau'r Pasg.

5.2 Ar gyfer prif ran tymor yr haf fe fydd un swyddog traeth yn Aberdyfi ac un Cymhorthydd Harbwr ychwanegol yn cael eu penodi ym Mehefin. Yn ychwanegol, penodir dau swyddog traeth yn Nhywyn. Bydd penodiad staff tymhorol yn sicrhau fod cymorth digonol yn Aberdyfi a Thywyn i oruchwylio gweithgareddau yn yr harbwr yn ystod misoedd yr haf.

**6 – *Gwobr Traeth***

6.1 Mae'n siomedig gorfod adrodd na fydd yr Uned Forwrol mewn sefyllfa i gyflwyno cais am wobr traeth i draeth Aberdyfi yn 2008. Nid oedd ansawdd y dŵr ymdrochi yn cyrraedd y safon gofynnol, ac felly ni ellir cyflwyno cais am y Faner Las na Gwobr Glan y Môr.

6.2 Deallir fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio i weld beth yw'r rheswm pam i ansawdd y dŵr ymdrochi fethu. Er fod y canlyniad yn siomedig, rhaid pwysleisio nad yw hyn yn adlewyrchiad o ansawdd y gwasanaeth gaiff ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd ac os yw ansawdd y dŵr o'r safon gofynnol yn 2008, fe fydd y Cyngor yn gallu cyflwyno cais am Wobr Traeth i'w chyflwyno i'r Awdurdod yn 2009.

***7 - Cwch Rheoli'r Harbwr***

7.1 Mae'r cwch presennol sy'n rheoli'r harbwr wedi bod yn gweithredu yn harbwr Aberdyfi er 1996 a bu'n ddefnyddiol iawn i sicrhau fod y gweithgareddau yn yr aber yn cael eu rheoli yn rhesymol. Yn ddiweddar, prynwyd cwch newydd math 'Powercat' a dylai fod ar gael yn yr harbwr cyn Gŵyl y Banc cyntaf ym Mai. Cyfanswm cost sicrhau fod y cwch newydd yn weithredol fydd tua £21,000.

## *8 - Materion Cyffredinol*

8.1 Bydd y bontdroed sy'n arwain i Fryn Llestair (Picnic Island) o'r briffordd sy'n croesi rheilffordd 'fyw' yn cael ei harchwilio'n y dyfodol agos gan Uned Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd. Er nad yw'r bont droed ar gyfer swyddogaeth forwrol mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn gyfrifol am gynnal y bont ac am Fryn Llestair. Yn ddiweddar, sylwyd fod dau werthyd wedi dod o'u lle yn y prif ffrâm ac fe allai rhywun bychan syrthio drwy'r bwlch. Mae'r bontdroed wedi ei thrwsio a rhagwelir y bydd angen gwaith atgywieirio pellach yn y dyfodol agos. Adeiladwyd y bont o bren meddal a rhagwelir y bydd angen i strwythur y bont gyfan i gael ei newid yn y dyfodol agos. Ni fydd modd ariannu pont newydd o gyllideb refeniw yr Uned Forwrol ac felly bydd angen dod o hyd i ffynonellau ariannu posib.

8.2 Gosodwyd system i gadw cychod gweini i gychod hwylio yn nechrau 2007 ac mae wedi bod o fudd i'r morwr. Rydym wedi archebu rheseli ychwanegol a dylai'r estyniad i'r system bresennol fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2008. Er mwyn lleihau'r dagfa a achosir gan dingis hwylio bychain yn ardal y Clwb Hwylio, rydym wedi cysylltu â Chlwb Hwylio Dyfi gyda'r bwriad o osod dingis hwylio bychain fel 'Toppers' a 'Lasers' mewn rheseli.

8.3 Bydd y gwaith blynyddol o symud tywod o'r lithrfa ac ardal y jeti yn cael ei wneud gan Uned Amddiffyn yr Arfordir Cyngor Gwynedd yn nechrau Mawrth a a bydd y promenâd a'r ardal gyfagos hefyd yn cael eu clirio. Bydd angen adnoddau staff ychwanegol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith.

8.4 Tua diwedd 2007, cyflwynwyd Cerbyd Patrol newydd i Aberdyfi. Roedd cost y cerbyd tua £18,000. Mae'r cerbyd yma'n hanfodol i sicrhau fod glannau de Meirionnydd yn cael eu gwasanaethu gan yr Uned Forwrol.

8.5 Yn ystod Ionawr 2008, adroddwyd fod swm sylweddol o narcotics wedi eu golchi i'r lan yn Nhywyn. Deallwyd fod y parsel a ddaeth i'r lan yn cynnwys Heroin, ac roedd ei werth ar y stryd oddeutu 1.6 miliwn. Rydym wedi cynghori'r cyhoedd i fod yn wyliadwrus wrth gerdded ar hyd y traethau ac i roi gwybod i'r Heddlu ar unwaith os ydynt yn gweld unrhyw weithgareddau amheus.